

CREDYD CYNHWYSOL

A CHI

Mae Credyd Cynhwysol wedi cael ei gyflwyno i roi'r cymorth rydych ei angen i ddod o hyd i waith a symud ymlaen yn y gwaith. Rydym am i chi allu elwa ar yr holl bethau cadarnhaol a ddaw gyda gwaith. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i wneud hynny ac yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

Gwasanaeth Llawn a Byw Credyd Cynhwysol

Eich Cyfrifoldebau

Eich Ymrwymiad

Taliadau, y cymorth sydd ar gael ac enillion

Sanctsiynau

Chwiliad gwaith llawn amser

Amodoldeb, Ehangu gwaith a Thapr

Hunangyflogaeth

Help gyda chostau gofal plant cymwys

Tai

Budd-daliadau pasbort a budd-daliadau eraill

Am ragor o wybodaeth am yr holl bynciau a drafodir yn y canllaw hwn a mwy, ewch i www.gov.uk/universal-credit

Gwasanaeth Llawn a Byw Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno fesul cam ar draws Prydain Fawr yn ôl ardal god post. Mae p'un a allwch wneud cais amdano a'r ffordd rydych yn rheoli eich cais yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'ch amgylchiadau personol.

Gwasanaeth llawn

Mae gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol ar gael i holl hawlwrwyr mewn rhai ardaloedd ym Mhrydain Fawr. **Bydd gennych gyfrif Credyd Cynhwysol ar-lein i reoli eich cais.** Gallwch ddefnyddio eich cyfrif i roi gwybod am newidiadau, anfon negeseuon at eich anogwr gwaith a chael cefnogaeth. Yn y pen draw, bydd pob cais Credyd Cynhwysol ar y gwasanaeth llawn a bydd gennych gyfrif Credyd Cynhwysol ar-lein.

Gwasanaeth byw

Ers 1 Ionawr 2018 nid yw gwasanaeth byw Credyd Cynhwysol ar gael ar gyfer ceisiadau newydd. Byddwch yn cael eich cyfeirio i wneud cais am fudd-daliadau eraill (Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai, Credydau Treth a Chredyd Treth Plant) hyd nes y bydd y Gwasanaeth Llawn yn cael ei gyflwyno ble rydych yn byw. Gallwch ddychwelyd i wasanaeth byw Credyd Cynhwysol os ydych yn byw mewn ardal 'gwasanaeth byw' ac wedi bod ar UC yn y chwe mis diwethaf, ond bod taliadau wedi dod i ben oherwydd lefel eich enillion.

Os oes gennych gais gwasanaeth byw ar hyn o bryd byddwch yn parhau i reoli eich cais dros y ffôn trwy'r ganolfan gwasanaeth.

Bydd ceisiadau gwasanaeth byw yn y pen draw yn symud i'r gwasanaeth llawn. Cewch eich hysbysu ynghylch pryd y bydd hyn yn digwydd a beth sydd angen i chi ei wneud ar y pryd.

Gwneud cais am Credyd Cynhwysol

Pan fyddwch yn gwneud eich cais, gofynnir i chi am eich cod post ac yna byddwch yn cael eich cyfeirio at y gwasanaeth cywir i gwblhau eich cais ar-lein. Yn y ddau wasanaeth byddwch bob amser yn cael

mynediad at anogwr gwaith a all eich helpu gyda phethau fel dod o hyd i waith, cynyddu'r oriau rydych chi'n gweithio a dod yn fwy parod ar gyfer pan fyddwch yn gallu gweithio trwy ddysgu sgiliau gwaith neu sgiliau bywyd newydd. Mae helpu i wella eich incwm wrth wraidd gwasanaeth Credyd Cynhwysol.

Rhoi gwybod am newidiadau

Bydd sut y byddwch yn rhoi gwybod am newidiadau sy'n effeithio ar eich cais Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar ba wasanaeth rydych yn ei ddefnyddio. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau ar unwaith. Er enghraifft, os ydych yn newid cyfeiriad, dod o hyd i waith neu stopio gweithio neu os ydych yn bwriadu mynd dramor, talu am ofal plant pan rydych yn gweithio neu bod eich incwm neu gyfalaf yn newid. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Ardaloedd gwasanaeth llawn

Defnyddiwch eich cyfrif Credyd Cynhwysol ar-lein i ddweud am newidiadau drwy ateb y cwestiynau ar y sgrin. Bydd y gwasanaeth ar-lein hefyd yn egluro sut i ddweud am newidiadau nad ydych yn gallu dweud amdanynt ar-lein ar hyn o bryd.

Ardaloedd gwasanaeth byw

Ffoniwch y ganolfan gwasanaethau Credyd Cynhwysol i ddweud am newidiadau: Ffôn: 0800 328 1744. Ffôn Testun: 0800 328 1344 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Eich Cyfrifoldebau

Pan fyddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol, mae nifer o weithgareddau rydych yn dod yn gyfrifol amdanynt er mwyn cael eich taliad. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol ar-lein yn www.gov.uk/universalcredit

- **Cwblhau gweithgareddau chwiliad gwaith am hyd at 35 awr yr wythnos**
- **Cwblhau Ymrwymiad wedi'i deilwra gyda'ch anogwr gwaith.**
- **Chi fydd yn gyfrifol am dalu rhent eich hunain a chostau tai eraill.**
- **Dweud am newid mewn amgylchiadau**
 - **Gwasanaeth llawn - drwy eich cyfrif ar-lein.**
 - **Gwasanaeth byw – drwy'r ganolfan gwasanaeth.**
- **Rheoli eich taliadau a chyllidebu bob mis. Efallai y byddwch yn gallu cael taliad ymlaen llaw i'ch helpu i ymdopi tan eich taliad cyntaf, gweler: <https://www.gov.uk/guidance/universal-credit-advances>**
- **Gweithio'n rhan-amser ac yn gallu ennill mwy? Bydd angen i chi chwilio am waith ychwanegol a chynyddu eich enillion.**

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Eich Ymrwymiad

Pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, bydd angen i chi gwblhau a derbyn Ymrwymiad wedi'i deilwra.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd eich Ymrwymiad yn cael ei lunio yn ystod sgwrs gyda'ch anogwr gwaith yn eich Canolfan Gwaith leol. Bydd yn nodi'r hyn rydych wedi cytuno i'w wneud i baratoi ar gyfer gwaith a chwilio am waith, neu i gynyddu eich enillion os ydych eisoes yn gweithio.

Bydd yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol a chaiff ei adolygu a'i ddiweddarau ar sail barhaus. Bob tro y caiff ei ddiweddarau, bydd angen i chi dderbyn Ymrwymiad newydd i barhau i gael Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpl, bydd angen i'r ddau ohonoch dderbyn Ymrwymiad unigol. Efallai y caiff eich Ymrwymiad ei effeithio os bydd eich partner yn dechrau gweithio neu fod eu hamgylchiadau'n newid.

Ddim yn bodloni eich cyfrifoldebau

Bydd eich Ymrwymiad yn datgan yn glir beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn bodloni un neu fwy o'ch cyfrifoldebau. Cewch daliadau llai, a elwir yn **sancsiwn**, os byddwch yn methu â bodloni un neu fwy o'ch cyfrifoldebau ac ni allwch roi rheswm da i egluro pam.

Eich Ymrwymiad

Os ydych yn ennill cymaint ag y gellir ei ddisgwyl yn dibynnu ar eich amgylchiadau presennol. Cewch gefnogaeth ariannol heb unrhyw amodau eraill i gynyddu eich enillion.

Os ydych yn gallu gweithio ac ar gael i weithio. Bydd angen i chi wneud popeth rhesymol y gallwch i roi'r cyfle gorau i chi ddod o hyd i waith. Eich ffocws llawn amser fydd paratoi at waith a chael swydd. Os na fyddwch yn gwneud hyn heb reswm da, cewch daliadau llai o'ch Credyd Cynhwysol, a elwir yn sancsiwn.

Os oes gennych allu cyfyngedig i weithio ar hyn o bryd yn ymwneud ag anabledd neu gyflwr iechyd, ond disgwylir i hyn newid dros amser. Cewch eich cefnogi hyd nes bydd eich amgylchiadau'n gwella a gallwch weithio. Bydd disgwyl i chi baratoi ar gyfer gwaith cyn belled ag y gallwch

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n eich atal rhag gweithio.

Ni fydd gofyn i chi weithio, a chewch eich cefnogi drwy Gredyd Cynhwysol

Os ydych yn gofalu am berson sydd ag anabledd difrifol am o leiaf 35 awr yr wythnos. Ni fydd gofyn i chi weithio, a chewch eich cefnogi drwy Gredyd Cynhwysol.

Os mai chi yw prif ofalwr plentyn. Cewch eich cefnogi'n eich amgylchiadau presennol. Bydd yr hyn a ddisgwylir i chi ei wneud fel prif ofalwr yn gyfnewid am gael Credyd Cynhwysol yn cael ei seilio ar oedran y plentyn ieuengaf yn y cartref

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Taliadau - sut, pryd a ble?

Dylech dderbyn **eich taliad cyntaf tua 5 wythnos ar ôl i chi wneud eich cais**. Byddwch wedyn yn gallu gweld eich manylion talu yn eich cyfrif. Ni allwn gadarnhau faint y byddwch yn ei gael cyn hynny, oherwydd mae'r swm yn dibynnu ar eich amgylchiadau, er enghraifft, os ydych yn gofalu am rywun arall a/neu os ydych wedi derbyn unrhyw incwm neu enillion y mis hwnnw.

Bydd eich taliad fel arfer yn cyrraedd yr un dyddiad bob mis neu'n gynharach os bydd y dyddiad yn disgyn ar benwythnos neu wyl banc. Os ydych chi'n gyflogedig, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn dweud wrthym am unrhyw arian rydych wedi'i ennill.

Telir Credyd Cynhwysol yn fisol yn uniongyrchol i'r cyfrif rydych yn ei ddweud wrthym amdano pan rydych yn gwneud eich cais. Cyfrifir y swm a gewch bob mis, ac mae'n dibynnu ar eich amgylchiadau ac enillion yn ystod y cyfnod hwnnw, a elwir yn Gyfnod Asesu.

Os oeddech yn derbyn credydau treth yn flaenorol, mae'n bwysig nodi y bydd **eich credydau treth yn dod i ben cyn gynted ag y byddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol**. Am fwy o wybodaeth gweler:

Credyd Cynhwysol: [help gyda rheoli eich arian - GOV.UK](https://www.gov.uk/government/publications/help-with-budgeting-your-universal-credit)

(<https://www.gov.uk/government/publications/help-with-budgeting-your-universal-credit>)

Cyfnod Asesu un mis calendr

Asesir a thelir Credyd Cynhwysol mewn ôl-dalaidau, yn fisol, mewn un taliad sengl. Asesir eich amgylchiadau personol i gyfrifo swm y Credyd Cynhwysol y bydd gennych hawl iddo.

7 Diwrnod a Thaliadau

Fel arfer, bydd eich taliadau yn cael eu cyfrifo o'r diwrnod y byddwch yn cyflwyno eich cais a chewch eich taliad cyntaf 7 diwrnod ar ôl diwedd eich Cyfnod Asesu cyntaf.

Yna gwneir eich taliad ar yr un dyddiad bob mis tra byddwch yn parhau i fod â hawl i gael Credyd Cynhwysol. Os yw eich dyddiad talu ar wyl y banc neu benwythnos byddwch yn cael eich talu ar y diwrnod gwaith olaf cyn gŵyl y banc neu benwythnos.

Bydd Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i mewn i'ch cyfrif a ddewiswyd.

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Cymorth sydd ar gael

Taliadau Ymlaen Llaw

Gallwch gael help ychwanegol yn ystod eich mis cyntaf o hawlio Credyd Cynhwysol.

Telir Credyd Cynhwysol bob mis a bydd gofyn i chi gyllidebu bob mis. Os ydych yn teimlo y gallech brofi problemau ariannol yn ystod yr amser rhwng gwneud eich cais a chael eich taliad cyntaf, gallwch wneud cais am daliad ymlaen llaw o Credyd Cynhwysol (bydd y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf yn cael ei wneud tua 5 wythnos o ddyddiad y cais).

Gallwch wneud cais am hyd at 100% o'ch hawl amcangyfrifedig i Credyd Cynhwysol a gallwch ad-dalu'r taliad ymlaen llaw dros 12 mis. Telir y taliadau ymlaen llaw i'r cyfrif banc rydych yn ei ddefnyddio ar gyfer eich cais Credyd Cynhwysol o fewn tri diwrnod gwaith. Os oes angen taliad yn gyflymach, gellir gwneud darpariaeth ar gyfer taliad Electronig Cyflymach yr un diwrnod. Dim ond lle mae amgylchiadau eithriadol y bydd y rhain yn cael eu gwneud, er enghraifft, lle nad oes gennych ddigon o arian i barhau nes bydd y taliad ymlaen llaw yn cael ei dalu.

I wneud cais am daliad ymlaen llaw bydd angen i chi ffonio llinell gymorth Credyd Cynhwysol.

I wneud cais, bydd angen i chi:

- egluro pam eich bod angen taliad ymlaen llaw
- darparu manylion cyfrif banc lle dylid talu'r taliad ymlaen llaw
- dilysu pwy ydych chi (byddwch yn gwneud hyn ar-lein pan fyddwch yn anfon eich cais Credyd Cynhwysol, neu yn y Ganolfan Gwaith yn ystod eich cyfweiliad cyntaf) os ydych angen help

Llinell gymorth gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol

Ffôn: 0800 328 1744 Ffôn testun: 0800 328 1344

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm bydd yr asiant yn mynd â chi drwy'r cais am daliadau ymlaen llaw. (Llinell gymorth Saesneg 0800 328 5644).

Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am hyn ar mathau eraill o daliadau

ymlaen llaw sydd ar gael yma: <https://www.gov.uk/guidance/universal-credit-advances>

Rheoli eich arian

Os ydych eisiau rhywfaint o help gyda rheoli eich arian, gallwch ddefnyddio'r Rheolwr Arian ar-lein yma <http://obs.moneyadviceservice.org.uk>

Mae'r Rheolwr Arian yn declyn digidol rhyngweithiol, sy'n eiddo i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sy'n cynnig cyngor personol ar reoli arian.

Mae'r cyngor yn cynnwys sut i agor cyfrif banc, delio ag ôl-ddyledion rhent a biliau rheolaidd a gwasanaethau cynghori ar ddyledion. Mae yna ffordd gyflym a hawdd o ddefnyddio awgrymiadau'r cynllunydd cyllideb a rheoli arian, gan gynnwys sut i leihau eich biliau cartref. Mae gan hwn hefyd wybodaeth am wneud cais am Gredyd Cynhwysol fel cwpl, gwneud cais gyda phlant, gwybodaeth i ofalwyr, dolenni i awdurdodau lleol a chanolfannau gwybodaeth eraill.

Os na allwch ddefnyddio'r teclyn Rheolwr Arian ar-lein ac rydych angen help i reoli'ch arian, siaradwch â'ch anogwr gwaith neu reolwr achos am y gefnogaeth cyllidebu personol lleol sydd ar gael yn eich ardal chi.

Cymorth sydd ar gael parhad

Cymorth Cyllidebu Personol (PBS)

Mae dwy elfen i PBS:

1. **Cyngor ariannol** i'ch helpu i ymdopi gyda rheoli eich arian yn fisol a thalu eich biliau ar amser.
 - Cynigir cyngor ariannol ar-lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb.
 - Bydd cyngor ariannol yn cael ei gyflwyno gan sefydliadau allanol gyda'r arbenigedd perthnasol i wneud hyn.
 - Help i gael cyfrif banc.
2. **Trefniadau Talu Amgen** (APA) os na allwch reoli'r taliad misol sengl. Ni chaniateir pob cais am Drefniadau Talu Amgen gan y bydd pob cais

yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn erbyn y meini prawf cymwys.

Os ydych yn gymwys, gallwch gael:

- Arian wedi'i dalu'n uniongyrchol i'ch landlord ar gyfer rhent - mae hyn yn golygu y bydd yr elfen costau tai o'ch Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n awtomatig bob mis i'ch landlord o'ch taliad Credyd Cynhwysol.
- Taliadau wythnosol neu bob pythefnos yn hytrach na bob mis - gall hyn eich helpu i beidio rhedeg allan o arian os ydych yn cael trafferth i wneud eich taliad barhau am fis cyfan.
- Taliadau wedi'u rhannu i 2 gyfrif banc yn lle un (cyplau yn unig) -- gall hyn eich helpu i reoli eich arian eich hun os oes gennych gyfrifoldebau sy'n wahanol i'ch partner, neu os ydych wedi bod yn ddiodefwr cam-driniaeth ac eisiau rheoli eich arian eich hun.

Gall Trefniadau Talu Amgen gael eu hystyried ar unrhyw adeg yn ystod y cais Credyd Cynhwysol. Os ydych ar hyn o bryd yn gwneud cais, neu am wneud cais am Credyd Cynhwysol, gallwch ofyn am Drefniadau Talu Amgen yn eich cyfweliad.

Mae angen i chi hefyd fod yn ymwybodol pe byddech yn mynd i ôl-ddyledion rhent, gall eich landlord wneud cais am ddidyniad trydydd parti yn uniongyrchol o'ch taliad Credyd Cynhwysol. Bydd hyn ond yn berthnasol os ydych o leiaf 2 fis mewn ôl-ddyledion gyda'ch rhent. Efallai y byddwch am siarad â'ch landlord ac yn dod i drefniant (er mwyn osgoi'r didyniadau hyn) os ydych yn o leiaf 2 fis mewn ôl-ddyledion gyda'ch rhent.

Siaradwch â'ch anogwr gwaith am fwy o wybodaeth os ydych eisoes yn cael Credyd Cynhwysol.

Os ydych angen help i wneud a/neu reoli'ch cais gyda Chredyd Cynhwysol, gallwch gael help i wella'ch sgiliau digidol. Gelwir hyn yn **Gymorth Digidol**. Os credwch y byddech yn elwa ar gymorth ychwanegol i fynd ar-lein neu i ddefnyddio cyfrifiadur, siaradwch â'ch anogwr gwaith.

Cymorth ychwanegol gyda chostau gofal plant cymwys

Efallai eich bod yn poeni am dalu am ofal plant tra rydych yn gweithio. Rydym eisiau helpu, felly trwy Gredyd Cynhwysol gallwch hawlio'n ôl hyd at 85% o gostau gofal plant cymwys. Rydym yn ychwanegu hyn at eich taliad misol. Siaradwch â'ch anogwr gwaith am ragor o wybodaeth.

Enillion

Taliadau enillion sydd ddim bob mis calendr

Efallai y cewch eich talu mewn patrymau eraill, gan gynnwys bob pedair wythnos, bob pythefnos, bob wythnos neu ar ddiwrnod penodol bob mis, a allai olygu y byddwch yn derbyn dau gyflog neu fwy yn ystod un cyfnod asesu Credyd Cynhwysol (AP) mewn rhai misoedd. Gall hyn leihau eich taliad Credyd Cynhwysol neu mewn rhai achosion olygu na fyddwch yn cael unrhyw Gredyd Cynhwysol am y mis hwnnw.

Dyddiau cyflog sefydlog

Dyma pan rydych yn cael eich talu gan eich cyflogwr ar ddyddiad sefydlog bob mis. Mewn rhai misoedd, efallai y byddwch yn derbyn eich cyflog cyn eich diwrnod cyflog arferol, er mwyn osgoi talu ar benwythnos neu wyl banc (mae penwythnosau a gwyliau banc yn cael eu galw'n ddyddiau nad ydych yn gallu bancio). Os nad yw cyflogwyr yn dilyn cyfarwyddyd HMRC yn gywir ac yn rhoi gwybod y dyddiad talu anghywir i HMRC gall hyn effeithio ar eich taliad Credyd Cynhwysol. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i chi godi hyn gyda'ch cyflogwr.

Gellir dod o hyd i fwy o arweiniad ar pa mor aml rydych yn cael eich talu a sut y gallai hynny effeithio ar eich taliadau Credyd Cynhwysol ar y rhyngwyd yn <https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-different-earning-patterns-and-your-payments/universal-credit-different-earning-patterns-and-your-payments-payment-cycles>

Enillion Dros Ben

Mae enillion dros ben yn digwydd pan fyddwch yn ennill £2,500 dros y swm a achosodd i'ch Credyd Cynhwysol stopio. Am fwy o wybodaeth

gweler <https://www.gov.uk/universal-credit/how-your-earnings-affect-your-payments>

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Sanctsiynau

Os byddwch yn methu â bodloni pob un o'ch cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt gennych yn eich Ymrwymiad heb reswm da, byddwch yn cael toriad yn eich budd-dal, a elwir yn sanctsiwn. Mae hyn yn golygu y bydd eich taliadau Credyd Cynhwysol yn cael eu lleihau am gyfnod penodol, a bydd cyfnod yr ostyngiad yn cynyddu po fwyaf y byddwch yn methu â bodloni gofynion tebyg, hyd at uchafswm o 3 blynedd. Mae yna bedair lefel o sanctsiwn: uwch, canolig, is ac isaf:

Lefel Uwch: Byddwch yn cael eich sanctsiynu am 91 diwrnod ar gyfer eich sanctsiwn lefel uwch cyntaf mewn unrhyw gyfnod o 364 diwrnod, 182 diwrnod ar gyfer eich ail, neu 1095 diwrnod ar gyfer eich trydedd os:

- Bod yn rhaid i chi gwrdd â 'gofyniad paratoi at waith', a'ch bod yn methu â chymryd rhan mewn Gweithgaredd Gwaith Gorfodol;
- Bod yn rhaid i chi gwrdd â 'gofyniad chwiliad gwaith', ac rydych yn methu â gwneud cais ar gyfer swydd benodol lle dywedir wrthyhych am wneud hynny;
- Bod yn rhaid i chi gwrdd â 'gofyniad argaeledd gwaith', ac rydych yn gwrthod cynnig swydd; neu
- Rydych yn gadael gwaith neu'n lleihau eich oriau gwaith, boed yn wirfoddol neu o ganlyniad i 'gamymddwyn' (tra'n hawlio Credyd Cynhwysol neu ychydig cyn eich cais).

Mae yna reolau arbennig ar gyfer pa mor hir y bydd eich sanctsiwn yn para os yw oherwydd gadael gwaith cyn i chi wneud cais am Credyd Cynhwysol.

Lefel Canolig: Byddwch yn cael eich sanctsiynu am 28 diwrnod ar gyfer eich sanctsiwn lefel canolig cyntaf mewn unrhyw gyfnod o 364 diwrnod, neu 91 diwrnod ar gyfer eich ail os bod:

- Rhaid i chi gwrdd â 'gofyniad chwiliad gwaith' a'ch bod yn methu â chymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i waith â thâl neu gynyddu eich enillion o waith; neu
- Rhaid i chi gwrdd â 'gofyniad argaeledd gwaith' ac nad ydych ar gael i ddechrau gweithio neu fynd i gyfweiliadau.

Lefel Is: Maent yn para hyd nes y byddwch yn gwneud beth bynnag y cawsoch eich sancsiynu dros fethu â gwneud, yn ogystal â 7 diwrnod i'ch sancsiwn lefel is cyntaf mewn unrhyw gyfnod o 364 diwrnod, 14 diwrnod ar gyfer eich ail, neu 28 diwrnod ar gyfer eich trydedd os:

- Rydych wedi methu â mynychu neu gymryd rhan mewn cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith, ac nid yw lefel sancsiwn isaf yn gymwys;
- Rydych wedi methu â mynychu neu gymryd rhan mewn cwrs hyfforddi;
- Rydych wedi methu â chymryd camau penodol i gael gwaith â thâl, neu i gynyddu eich enillion o waith.

Lefel Isaf: Mae'r rhain yn berthnasol os oes dim ond rhaid i chi gwrdd â'r 'gofyniad cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith', ac rydych yn methu â mynychu neu gymryd rhan mewn cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith; maent yn para hyd nes y byddwch yn cymryd rhan mewn un.

Taliadau Caledi:

Efallai y gallwch gael taliad caledi os cewch sancsiwn. Byddwch yn ei ad-dalu trwy'ch taliadau Credyd Cynhwysol a fydd yn is tan eich bod wedi'i dalu'n ôl.

Cymhwyster: Gallwch gael taliad caledi os gallwch ddangos na allwch dalu am:-

- rhent,
- gwres,
- anghenion bwyd neu hylendid i chi neu'ch cartref.
- Rhaid i chi fod yn 18 oed neu drosodd
- Rhaid bod eich taliad Credyd Cynhwysol wedi cael ei stopio neu ei leihau oherwydd sancsiwn. Ni allwch wneud cais am daliad caledi nes bod hyn wedi digwydd.
- Os cawsoch sancsiwn am beidio â gwneud rhywbeth fel mynychu cyfarfod ac nad oes dyddiad terfyn i'r sancsiwn hwnnw, ni allwch gael taliad caledi nes i chi wneud yr hyn y gofynnwyd i chi ei wneud.

- Rhaid i chi ddangos eich bod wedi gwneud popeth yn rhesymol i chwilio am waith yn y 7 niwrnod cyn gwneud cais am daliad caledi. Os nad ydych, ni chewch daliad caledi.

Asesir pob achos yn unigol. Bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod wedi ceisio canfod yr arian o rywle arall a dim ond wedi gwario arian ar bethau hanfodol.

Sut i wneud cais: Ffoniwch linell gymorth gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol 0800 328 5644; Llinell gymorth gwasanaeth byw Credyd Cynhwysol 0800 328 9344; Ffôn testun 0800 328 1344; Llinell Gymraeg 0800 328 1744 Dydd Llun i ddydd Gwener 8am-6pm.

Cyplau:

Os ydych yn gwpl, ar gyfer pob person y cafodd eu sancsiynu, mae'r gyfradd sancsiwn yn 50% o'r Lwfans Safonol priodol ar gyfer y cwpl. Ar gyfer y sancsiwn lefel isaf, byddwch yn cael eich sancsiynu ar swm sy'n gyfatebol â 20% o'ch Lwfans Safonol (50% o 40%).

Gostyngiad i sancsiynau o Gredyd Cynhwysol:

Er na allwch gael dau sancsiwn ar unwaith, gall sancsiynau rhedeg yn gefn-wrth-gefn. Pan fyddwch yn cael eich sancsiynu, fel arfer eich taliad nesaf, neu gyfres o daliadau Credyd Cynhwysol yn y dyfodol, sy'n cael eu heffeithio.

Caiff gostyngiadau sancsiynau eu cymhwyso ar ôl cymryd enillion ac incwm heb ei ennill i ystyriaeth. Os nad oes digon o Gredyd Cynhwysol yn weddill ar ôl hyn i gymryd swm llawn y sancsiwn, bydd y sancsiwn yn lleihau'r dyfarniad i ddim ac yn cael ei drin fel pe bai wedi'i wneud yn llawn. Byddwch yn parhau i fod â hawl i Gredyd Cynhwysol ac felly bydd gennych fynediad i fudd-daliadau 'pasbort' fel presgripsiynau am ddim.

Pobl 16/17 mlwydd oed:

Gallwch ddisgyn i unrhyw un o'r pedwar grŵp amodoldeb (yr holl ofynion sy'n gysylltiedig â gwaith, gofynion cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith a pharatoi at waith yn unig, gofynion cyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith yn unig a dim gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith). Mae'r gyfundrefn sancsiynau ar gyfer pobl 16 a 17 oed yn adlewyrchu'r drefn

ar gyfer oedolion, ond mae ganddynt symiau sancsiwn is, 40% o'r Lwfans Safonol, a chyfnodau byrrach.

Os nad ydych yn cytuno â sancsiwn Credyd Cynhwysol:

Gallwch ofyn am ailystyriaeth orfodol o fewn mis i ddyddiad penderfyniad. Mae'n rhaid i chi ysgrifennu i'r adran a roddodd y penderfyniad (bydd y cyfeiriad i ysgrifennu iddo ar y llythyr penderfyniad) a dweud pam y credwch fod y penderfyniad yn anghywir, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth. Am fwy o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/mandatory-reconsideration>

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Chwiliad gwaith llawn amser

Os yw eich Ymrwymiad yn cynnwys chwilio am waith, bydd disgwyl i chi wneud popeth rhesymol y gallwch i baratoi ar gyfer gwaith a dod o hyd i waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i chi gwblhau hyd at 35 awr o weithgaredd chwiliad gwaith yr wythnos er mwyn cael Credyd Cynhwysol. Gallai hyn gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Paratoi eich CV
- Ei deilwra i bob swydd
- Ymchwilio i gyflogwr a chysylltiadau trafndiaeth
- Gnweud cais am swyddi addas
- Paratoi nodyn eglurhaol ar gyfer eich CV
- Dilyn i fyny ar geisiadau
- Ei gwneud yn hawdd i chi gael eich canfod ar-lein
- Chwiliad gwaith a gosod rhybuddion swyddi ar-lein
- Rhyngweithio gyda ffrindiau, teulu a chyfryngau cymdeithasol
- Paratoi am eich cyfweiliad
- Cofnodi eich gweithgareddau i olrhain eich cynnydd

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Am ragor o awgrymiadau a syniadau ewch i Camau Dyddiol i Waith <http://camaudyddioliwaith.tumblr.com>

Amodoldeb

Mae amodoldeb yn golygu pethau sy'n gysylltiedig â gwaith y bydd yn rhaid i oedolyn cymwys ei wneud er mwyn cael hawl llawn i Gredyd Cynhwysol. Bydd pob oedolyn cymwys yn perthyn i un o 4 grŵp amodoldeb yn seiliedig ar eu gallu a'u hamgylchiadau; y rhain yw:

- Yr holl ofynion sy'n gysylltiedig â gwaith
- Gofynion cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith a pharatoi at waith yn unig
- Gofynion cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith yn unig
- Dim gofynion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Siaradwch â'ch anogwr gwaith i ganfod pa grŵp amodoldeb sy'n berthnasol i chi.

Amodoldeb diwrnod un - Fel oedolyn cymwys, bydd yn ofynnol i chi gofrestru eich cyfrif Paru Swyddi Ar-lein, creu eich cyfrif/cyfeiriad e-bost eich hun a chreu Curriculum Vitae (CV) o ddiwrnod cyntaf eich cais Credyd Cynhwysol.

Ehangu gwaith_

Mae Credyd Cynhwysol yn 'ehangu gwaith' ac yn caniatáu mynediad at ystod ehangach o swyddi drwy:

- Helpu i sicrhau eich bod bob amser yn well eich byd mewn gwaith
- Caniatáu gwaith rhan-amser a thymor byr i weithredu fel cam i mewn i waith
- Eich darparu gyda chefnogaeth gan anogwr gwaith i'ch helpu bob cam o'r ffordd
- Cael gwared ar rwystrau, gan eich galluogi i weithio mwy nag 16 awr yr wythnos a pharhau i hawlio Credyd Cynhwysol.

Am wybodaeth bellach gweler [Credyd Cynhwysol a gwaith - GOV.UK.](https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-work-quick-guide) (https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-work-quick-guide)

Tapr

Mae Credyd Cynhwysol wedi'i gynllunio i sicrhau eich bod yn well eich byd mewn gwaith, drwy ychwanegu at eich cyflog bob mis tra rydych ei angen.

Mae eich taliad Credyd Cynhwysol yn lleihau'n raddol wrth i chi ennill mwy (sef tapr), a bydd yn cynyddu eto os yw eich swydd yn dod i ben neu os yw eich enillion yn gostwng.

Gallwch ennill swm penodol, sy'n seiliedig ar eich amgylchiadau unigol, cyn bod eich taliad Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau. Po fwyaf y byddwch yn ei ennill, yr uchaf y bydd cyfanswm eich incwm, sy'n helpu i sicrhau y byddwch yn well eich byd mewn gwaith.

Defnyddiwch [gyfrifiannell budd-dal](https://www.gov.uk/benefits-calculators) i weld sut y bydd dechrau swydd neu gynyddu eich oriau'n effeithio ar eich budd-daliadau. (<https://www.gov.uk/benefits-calculators>).

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Hunangyflogaeth

Caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno fesul cam ar draws Prydain Fawr yn ôl ardal cod post. Mae p'un a gallwch wneud cais amdano a'r ffordd rydych yn rheoli eich cais yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'ch amgylchiadau personol.

Gwasanaeth Llawn

Mae gwasanaeth llawn credyd cynhwysol ar gael i holl hawl wyr, gan gynnwys yr hunangyflogedig, mewn rhai rhannau o Brydain Fawr. Bydd gennych gyfrif Credyd Cynhwysol ar-lein i reoli eich cais.

Gwasanaeth Byw

Os oes gennych gais Credyd Cynhwysol sefydledig, ac yna'n dod yn hunangyflogedig, gallwch barhau i hawlio Credyd Cynhwysol.

Cyfweliad Porth

Gofynnir i bobl sy'n hunangyflogedig y disgwylir iddynt chwilio am waith a bod ar gael i weithio tra'n cael Credyd Cynhwysol, fynychu cyfweliad Porth; gofynnwch i'ch anogwr gwaith am hyn.

Canllaw hunangyflogaeth

Caiff hwn ei roi pan fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn hunangyflogedig, ac mae'n egluro hunangyflogaeth a Chredyd Cynhwysol. Mae'n dweud wrthy ch beth i'w ddisgwyl yn eich cyfweliad porth, beth i ddod gyda chi, a sut i roi gwybod am enillion hunangyflogedig.

Beth mae'n ei olygu i fod yn hunangyflogedig â thâl?

Pan fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn hunangyflogedig, mae angen i ni benderfynu ai hunangyflogaeth yw'r ffordd fwyaf priodol i chi ddod yn annibynnol yn ariannol. Y cam cyntaf tuag at wneud y penderfyniad hwn yw asesu p'un ag ydych yn hunangyflogedig â thâl.

Mae hyn yn golygu y dylai hunangyflogaeth mewn masnach, proffesiwn neu alwedigaeth fod eich prif alwedigaeth. Rhaid iddo hefyd gael ei drefnu, ei ddatblygu, yn rheolaidd, a'i weithredu yn y disgwyliad o wneud elw. Os na chanfu eich bod yn hunangyflogedig â thâl, ni chymhwysir y Llawr Isafswm Incwm (gweler isod), ac mae gofyn i chi gwrdd ag amodau chwiliad gwaith.

Llawr Isafswm Incwm

Mae'r Llawr Isafswm Incwm yn lefel tybiedig o enillion ar gyfer hawlydd hunangyflogedig â thâl, ac yn seiliedig ar yr enillion y disgwyliwn i hawlydd mewn amgylchiadau tebyg ei gael. Mae wedi'i gynllunio i'ch annog a'ch cymell i gynyddu eich enillion drwy ddatblygu eich busnes, a chaiff ei gymhwyso os ydych yn hunangyflogedig â thâl, ac nad ydych mewn cyfnod dechrau busnes.

Os ydych yn destun i'r Llawr Isafswm Incwm, ni fyddwch yn amodol i ofynion chwiliad gwaith neu argaeledd am waith, sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar sicrhau llwyddiant eich busnes a gwneud y mwyaf o'ch arian hyd at a thu hwnt i lefel y Llawr Isafswm Incwm.

Cyfnod dechrau busnes

Os byddwn yn penderfynu eich bod yn hunangyflogedig â thâl, rydych o fewn blwyddyn o ddechrau'n hunangyflogedig a'ch bod yn cymryd camau gweithredol i gynyddu eich enillion, byddwch yn gymwys am gyfnod dechrau busnes. Mae hwn yn gyfnod o hyd at ddeuddeng mis lle na chymhwysir y Llawr Isafswm Incwm, ac ni fydd yn ofynnol i chi chwilio am waith neu gymryd gwaith arall.

Ystyrir eich enillion gwirioneddol i gyfrifo eich dyfarniad Credyd Cynhwysol. Disgwylir i chi gymryd camau i adeiladu eich busnes a chynyddu eich enillion, a byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o hyn yn ystod eich cyfweiliadau chwarterol.

Cymorth Anogwr Gwaith

Os ydych yn y cyfnod dechrau busnes, cewch gefnogaeth unigol gan eich anogwr gwaith i'ch helpu i dyfu eich busnes a chynyddu eich enillion.

Os oes gennych bartner sy'n gweithio

Gall enillion eich partner effeithio ar y Llawr Isafswm Incwm a gymhwysir i'ch cais mewn rhai amgylchiadau.

Defnyddir incwm y cartref i gyfrifo swm y Credyd Cynhwysol a gewch, felly efallai y gall enillion eich partner effeithio ar eich taliad.

Os oes gennych bartner sydd hefyd yn hunangyflogedig â thâl

Byddai gan y ddau ohonoch Llawr Isafswm Incwm eich hun, ac fe'i cyfrifir yn dibynnu ar eich amgylchiadau, ac efallai y cyfunir y rhain i gyfrifo dyfarniad eich cartref.

Newidiadau i'ch hunangyflogaeth

Bydd angen i chi ddweud am unrhyw newid yn eich amgylchiadau drwy eich dyddlyfr yn eich cyfrif ar-lein (gwasanaeth llawn) neu drwy'r ganolfan gwasanaeth (gwasanaeth byw). Yn dibynnu ar y newid, efallai y bydd angen i ni gynnal prawf hunangyflogedig â thâl newydd.

Cymorth busnes eraill

Mae miloedd o bobl yn cymryd y penderfyniad i ddechrau eu busnes eu hunain, neu dyfu un sydd eisoes yn bodoli, bob blwyddyn. Os ydych yn meddwl am hyn i wella eich dyfodol, mae GOV.UK yn darparu cyfoeth o wybodaeth am weithio i chi eich hun. (<https://www.gov.uk/working-for-yourself>)

Credyd Cynhwysol a hunangyflogaeth - Cyhoeddiadau - GOV.UK

(<https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-self-employment-quick-guide>)

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Help gyda chostau gofal plant cymwys

Mae Credyd Cynhwysol yn helpu rhieni sy'n gweithio drwy ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gofal plant cymwys, waeth faint o oriau rydych yn eu gweithio. Os ydych yn gwneud cais gyda phartner fel arfer bydd angen i'r ddau ohonoch fod mewn gwaith i gael y cymorth hwn. Mae hefyd ar gael os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol ac yn cael Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin, Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol, Tâl Tadolaeth a Rennir, Tâl Mabwysiadu Statudol neu Lwfans Mamolaeth.

Gallwch hawlio hyd at 85% o'ch costau gofal plant gwirioneddol a dalwyd allan os ydych yn bodloni'r amodau cymhwyso a bod eich costau gofal plant yn gymwys.

Gall hawlwr sydd â chynnig swydd gadarn sydd wedi'i derbyn gwneud cais am gostau gofal plant cymwys mis cyn dechrau gweithio. Siaradwch â'ch anogwr gwaith cyn gynted â phosibl am eich cynnig swydd a'r opsiynau cymorth sydd ar gael i chi o ran helpu gyda chael trefn mewn lle ar gyfer pan fyddwch yn dechrau gweithio. Telir Credyd Cynhwysol ar gyfer costau gofal plant cymwys mewn ôl-daliadau, felly os ydych yn meddwl eich bod angen help gyda chostau ymlaen llaw, dylech drafod hyn gyda'ch anogwr gwaith. Gall cymorth ychwanegol i gwrdd â thaliad cychwynnol ar gyfer costau gofal plant cymwys fod ar gael, yn amodol ar rai amodau.

Gall Credyd Cynhwysol ar gyfer costau gofal plant cymwys hefyd gael eu hawlio am o leiaf mis ar ôl i'ch cyflogaeth ddod i ben, a all eich helpu i gynnal gofal plant wrth i chi symud rhwng swyddi.

Mae help i dalu am gostau gofal plant cymwys o fewn Credyd Cynhwysol yn berthnasol i daliadau i ddarparwyr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Yn gyffredinol, golyga bod y darparwr gofal plant wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), OFSTED yn Lloegr a'r 'Care Inspectorate' yn yr Alban. Gall gofal plant cymeradwy gynnwys gofal a ddarperir yn yr ysgol neu

mewn lle arall drwy warchodwr plant, cynllun chwarae, meithrinfa neu glwb. Dylai eich darparwr gofal plant cymeradwy ddarparu rhif cofrestru i chi.

I wneud cais bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch lleoliad(au) gofal plant a gwir gost y gofal plant gyda derbynebaw.

Help arall gyda chostau gofal plant

Gall pob plentyn tair a phedair oed yn Lloegr gael 570 awr o addysg gynnar neu ofal plant bob blwyddyn am ddim. Mae hyn fel arfer yn cael ei gymryd fel 15 awr bob wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Mae rhai plant dwy oed hefyd yn gymwys.

O fis Medi 2017, bydd yr hawl gofal plant am ddim yn Lloegr yn cael ei ddyblu i 30 awr yr wythnos i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio. Mae cymorth gyda gofal plant hefyd ar gael yng Nghymru a'r Alban.

Ni allwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar gyfer costau gofal plant cymwys i dalu am unrhyw ddarpariaeth am ddim. Fodd bynnag, gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar gyfer costau gofal plant cymwys i dalu am gost yr oriau y tu hwnt i'r ddarpariaeth am ddim. Os yw eich plentyn yn dechrau cael gofal plant am ddim, dylech ddweud wrthym am y newid ar unwaith.

Os ydych yn gweithio ac yn gyfrifol am blentyn, efallai y bydd eich cyflogwr yn gallu eich helpu gyda chostau gofal plant drwy Gymorth Gofal Plant Cyflogwr ar ffurf talebau gofal plant. Bydd Cymorth Gofal Plant Cyflogwr yn cau i geisiadau newydd o fis Ebrill 2018.

Yn gynnar yn 2017, bydd y cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd yn cael ei gyflwyno i gefnogi rhieni gyda'u costau gofal plant. Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, ni fyddwch yn gymwys i gael Gofal Plant Di-dreth ar yr un pryd, felly bydd angen i chi ddewis rhwng cael costau gofal plant Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth. Os oes angen help arnoch gyda hyn, dylech siarad â'ch anogwr gwaith.

Am wybodaeth bellach am ddarparwyr cofrestredig, gofal plant am ddim a chymorth gofal plant eraill ewch i <https://www.gov.uk/childcaresupport>.

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Tai

Os ydych chi a/neu eich partner yn gyfrifol am dalu'r rhent (gan gynnwys unrhyw daliadau gwasanaeth cymwys) ar gyfer y cartref rydych yn byw ynddo, neu os oes gennych forgais, efallai y gall Credyd Cynhwysol roi cymorth tuag at y gost. Rydym yn galw hyn yn Gostau Tai Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, eich cyfrifoldeb chi yw cyllidebu'n gywir a sicrhau eich bod yn talu eich rhent a chostau tai eraill yn uniongyrchol i'ch landlord neu fenthyciwr/morgais yn llawn. Mae bod yn gyfrifol am dalu'r rhent yn golygu bod gennych gytundeb i wneud taliadau rhent ac mae gennych gontract neu gytundeb rhentu ysgrifenedig gyda landlord, sefydliad neu asiantaeth.

Os ydych yn gwneud cais am gostau tai o dan Gredyd Cynhwysol mewn **ardal gwasanaeth llawn** ac yn byw yn y **sector tai cymdeithasol**, bydd y ganolfan gwasanaeth yn e-bostio ffurflen Gwirio Costau Tai i'ch landlord. Unwaith y bydd hon wedi cael ei dychwelyd, bydd y wybodaeth yn cael ei wirio yn erbyn eich datganiad hawlydd.

Os ydych yn gwneud cais am gostau tai o dan Gredyd Cynhwysol mewn **ardal gwasanaeth llawn ac yn byw yn y sector tai preifat**, eich cyfrifoldeb chi yw darparu tystiolaeth o'ch rhent h.y. cytundeb tenantiaeth a'r swm i'ch anogwr gwaith.

Os ydych yn gwneud cais am gostau tai o dan Gredyd Cynhwysol mewn ardal gwasanaeth byw, eich cyfrifoldeb chi yw dod â thystiolaeth gyda chi i'r Ganolfan Gwaith, er enghraifft:

- Cytundeb tenantiaeth cyfredol
- Datganiad rhent cyfredol
- Llyfr rhent cyfredol
- Llythyr wedi'i lofnodi gan eich landlord
- Cytundeb morgais
- Datganiad morgais cyfredol
- Unrhyw gytundeb(au) benthyciad a sicrheir ar eiddo
- Cyfriflen banc yn dangos taliadau morgais.

Byddwn yn gwirio a dilysu eich tystiolaeth cyn talu Costau Tai Credyd Cynhwysol. Byddwn hefyd yn gwirio'r lefelau rhent lleol yn eich ardal. **Os nad ydych yn darparu'r dystiolaeth yma efallai y bydd oedi wrth dalu Costau Tai Credyd Cynhwysol.**

Os ydych yn cael Budd-dal Tai cyn i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol

Er mwyn eich helpu'n ariannol, bydd eich Budd-dal Tai yn parhau i gael ei dalu am bythefnos ar ôl i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol. Gwneir y taliad hwn gan eich Awdurdod Lleol.

Mae'r taliad Budd-dal Tai dwy wythnos ychwanegol hwn yw eich cefnogi pan fyddwch yn symud o Fudd-dal Tai i Credyd Cynhwysol yn y lle cyntaf. Nid oes angen i chi ad-dalu'r arian ychwanegol hwn ac ni chaiff ei ystyried fel incwm gan Gredyd Cynhwysol. Nid oes angen i chi wneud cais am y 2 wythnos ychwanegol yma o Fudd-dal Tai, bydd yn cael ei dalu'n awtomatig pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol yn y lle cyntaf.

Os telir eich Budd-dal Tai yn uniongyrchol i'ch landlord, bydd yr arian ychwanegol hefyd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord, oni bai eich bod yn gwneud cais newydd i Gredyd Cynhwysol oherwydd [newid cyfeiriad](#).

Os telir eich Budd-dal Tai yn uniongyrchol i chi, telir yr arian ychwanegol yn uniongyrchol i chi hefyd pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol. Am fwy o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/housing-and-universal-credit/how-to-claim>

Gostyngiad Treth Cyngor Lleol

Os ydych yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol am y tro cyntaf, byddem yn eich cynghori i wneud cais am Ostyngiad Treth Cyngor Lleol (LCTR) ar unwaith, gan na fydd llawer o awdurdodau lleol yn ei ôl-ddyddio i chi.

Nid oes angen i chi aros nes bod eich cais am Gredyd Cynhwysol wedi cael ei asesu a/neu ei dalu. Gallwch ddechrau'r broses i wneud cais am [LCTR ar GOV.UK](#).

(<http://www.gov.uk/apply-council-tax-reduction>). Bydd yn mynd â chi yn syth i'r dudalen berthnasol ar wefan eich cyngor lleol, a fydd yn dweud wrthyfch beth sydd angen i chi ei wneud nesaf.

Efallai y gallech gael help gan eich awdurdod lleol gyda'ch Treth Cyngor os ydych ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Mae'r cymorth a gewch yn dibynnu ar ble rydych yn byw, eich amgylchiadau, incwm eich cartref - gan gynnwys cynilon a phensiynau, os oes unrhyw blant neu oedolion yn byw gyda chi a chynllun gostyngiad Treth Cyngor eich cyngor lleol.

Taliadau Tai Dewisol (DHP)

Yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, efallai na fydd yr arian a delir i chi yn eich taliad Credyd Cynhwysol yn cwmpasu eich holl gostau tai. Lle mae hyn yn digwydd, dylech ystyried gwneud cais am Daliadau Tai Dewisol. Mae'r taliadau hyn yn cael eu gwneud gan eich Awdurdod Lleol a gallant gwmpasu'r canlynol:

- gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol lle mae'r cap ar fudd-daliadau wedi'i gymhwyso;
- gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol oherwydd dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr;
- gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol o ganlyniad i gyfyngiadau Lwfans Tai Lleol;
- cyfyngiadau swyddog rhentu fel rhent cyfeirio lleol neu gyfradd llety a rennir;
- didyniadau pobl nad ydynt yn ddibynnol mewn Budd-dal Tai, neu gyfraniadau cost tai mewn Credyd Cynhwysol;
- diffygion rhent i atal cartref rhag mynd yn ddigartref tra bod yr awdurdod tai yn edrych i mewn i opsiynau eraill;
- gostyngiad mewn tapr incwm;
- polisi i gyfyngu budd-dal i ddau blentyn; a
- unrhyw newid polisi arall sy'n cyfyngu ar swm y Budd-dal Tai sy'n daladwy, er enghraifft dileu'r premiwm teulu.

Gall DHP hefyd gael ei ddyfarnu ar gyfer blaendal rhent neu rent ymlaen llaw am eiddo nad yw'r hawlydd wedi symud i mewn iddo eto os oes

ganddynt hawl i Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol yn eu cartref presennol.

Am fwy o wybodaeth

gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/claiming-discretionary-housing-payments>

Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI).

Os ydych chi a/neu'ch partner yn berchen ar y cartref rydych yn byw ynddo, a bod gennych forgais neu fenthyciad arall wedi'i sicrhau ar yr eiddo, efallai y byddwch chi'n gymwys i gael Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI).

Telir SMI fel benthyciad, y bydd angen i chi ei dalu'n ôl pan werthir yr eiddo neu y trosglwyddir perchenogaeth. Bydd y swm a gewch yn seiliedig ar gyfradd llog safonol a gymhwysir i'ch morgais sy'n weddill. Fe'i telir yn uniongyrchol i'ch benthyciwr morgais.

Unwaith y byddwch chi neu'ch partner yn derbyn incwm o waith, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn taliadau benthyciad SMI mwyach. Bydd angen i chi ad-dalu'r arian a gewch pan fyddwch yn gwerthu neu'n trosglwyddo perchenogaeth eich cartref.

Os yw'ch tŷ yn brydlesol, efallai y byddwch hefyd yn cael help gyda rhai taliadau gwasanaeth fel rhan o'ch Credyd Cynhwysol.

Gweler: <https://www.gov.uk/support-for-mortgage-interest>

[Dychwelyd i'r cynnwys](#)

Budd-daliadau pasbort a budd-daliadau eraill

Budd-daliadau Pasbort

Budd-daliadau pasbort yw budd-daliadau neu gynlluniau y mae gan rai grwpiau o bobl hawl i'w cael oherwydd eu hawl i fudd-daliadau penodol neu gredydau treth. Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol efallai y bydd cymorth ychwanegol y gallwch ei gael, er enghraifft Prydau Ysgol am Ddim, cymorth gyda chostau iechyd, ac ati.

Os ydych yn byw yn Lloegr dilynnwch y ddolen hon am fwy o wybodaeth: <https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-and-other-benefits-quick-guide/extra-support-for-universal-credit-claimants>

Os ydych yn byw yn yr Alban dilynnwch y ddolen hon : <https://beta.gov.scot/policies/social-security/universal-credit/>

Os ydych yn byw yng Nghymru dilynnwch y ddolen hon: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160701-eligibility-criteria-passported-and-other-schemes-en-v1.pdf>

Budd-daliadau Eraill

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli 6 budd-dal oedran gweithio: JSA yn seiliedig ar incwm, ESA yn seiliedig ar incwm, Credydau Treth Gwaith, Credydau Treth Plant, Budd-dal Tai a Chymhorthdal Incwm.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys nifer o fudd-daliadau eraill y gallai fod gennych hawl iddynt yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr felly defnyddiwch gyfrifiannell budd-dal i sicrhau eich bod yn hawlio'r budd-daliadau cywir i chi. <https://www.gov.uk/benefits-calculators>

JSA Dull Newydd

Efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) dull newydd os ydych yn byw mewn [ardal gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol](#).

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) dull newydd os ydych yn byw yn unrhyw le arall ac rydych:

- eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol, neu
- yn dychwelyd i Gredyd Cynhwysol o fewn 6 mis i gais blaenorol.

Bydd angen i chi fod wedi talu neu gael eich credydu gyda digon o [gyfraniadau Yswiriant Gwladol](#).

Gallwch gael JSA dull newydd am hyd at 182 diwrnod. Ar ôl hyn bydd eich anogwr gwaith yn siarad â chi am eich opsiynau.

Gallwch gael JSA dull newydd ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â Chredyd Cynhwysol.

Os ydych yn gwneud cais am y ddau fudd-dal, bydd unrhyw JSA dull newydd y mae gennych hawl i'w gael yn cael ei ddidynnu o'ch taliad Credyd Cynhwysol. Pan fydd eich JSA dull newydd yn dod i ben byddwch yn symud ymlaen i gael yr hawl llawn o Gredyd Cynhwysol.

Mae JSA dull newydd:

- yn cael ei dalu bob pythefnos mewn ôl-daliadau;
- yn denu cyfraniad Yswiriant Gwladol dosbarth 1 am bob wythnos a hawlir, a
- ddim yn cael ei effeithio gan enillion partner neu unrhyw gynilion sydd gennych.

Am fwy o wybodaeth gweler: <https://www.gov.uk/guidance/new-style-jobseekers-allowance>

ESA Dull Newydd

Efallai y byddwch yn gallu cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd os ydych yn sâl ac yn methu â gweithio ac yn byw mewn [ardal gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol](#).

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd os ydych yn sâl ac yn methu â gweithio, yn byw mewn unrhyw le arall ac rydych:

- eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol, neu
- yn dychwelyd i Gredyd Cynhwysol o fewn 6 mis i gais blaenorol.

Bydd angen i chi gael [nodyn ffitrwydd](#) a bod wedi talu neu gael eich credydu gyda digon o [gyfraniadau Yswiriant Gwladol](#).

Gallwch gael ESA dull newydd ar ei ben ei hun neu ar yr un pryd â Chredyd Cynhwysol.

Os ydych yn gwneud cais am y ddau fudd-dal, bydd unrhyw ESA dull newydd y mae gennych hawl i'w gael yn cael ei ddiwynnu o'ch taliad Credyd Cynhwysol.

Mae ESA dull newydd:

- yn cael ei dalu bob pythefnos mewn ôl-daliadau;
- yn denu cyfraniad Yswiriant Gwladol dosbarth 1 am bob wythnos a hawlr, a
- ddim yn cael ei effeithio gan enillion partner neu unrhyw gynilion sydd gennych.

Am fwy o wybodaeth gweler: <https://www.gov.uk/guidance/new-style-employment-and-support-allowance>

Help i Gynilo

Mae Help i Gynilo yn gynllun cynilo newydd gan y llywodraeth i gefnogi pobl sy'n gweithio ar incwm isel i adeiladu eu cynilion. To find out more visit:

<https://www.gov.uk/government/publications/help-to-save-what-it-is-and-who-its-for/the-help-to-save-scheme>

Mae budd-daliadau eraill y gallech fod â hawl iddynt yn cynnwys:

- Lwfans Gweini
- Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Plant
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol
- Cynlluniau cymorth Treth Cyngor Lleol
- Darpariaeth Lles Lleol
- Pensiwn Newydd y Wladwriaeth
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Budd-daliadau profedigaeth

- Lwfans Mamolaeth

Darganfyddwch am unrhyw un o'r budd-daliadau hyn drwy chwilio ar www.gov.uk, neu gofynnwch i'ch Anogwr Gwaith.